



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol: **Sector Iechyd** (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 7)



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Methodoleg	4
3	Canfyddiadau	5
4	Tueddiadau	7
5	Casgliadau ac Argymhellion	9
	Atodiad	10

1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer pob sefydliad eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith bod arferion sefydliadau yn y maes hwn wedi esblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda defnydd cynyddol o amrywiaeth o blatfformau.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau o fewn y Sector Iechyd sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 7 gan gyflwyno argymhellion i chi eu hystyried i sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad chi.
- 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yn cael eu trafod gyda phob sefydliad er mwyn cynnig adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd 10 o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 7.
- 2.2 Arolygwyd y sefydliadau yn ystod Gorffennaf 2025.
- 2.3 Mae Rheoliadau Rhif 7, sef Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sector hwn, yn cynnwys dwy safon, sef safon 45 a safon 46 sy'n cyfeirio at ddefnydd sefydliadau o'r cyfryngau cymdeithasol.
- 2.4 Mae Safon 45 yn nodi '*Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*'
- 2.5 Mae Safon 46 yn cyfeirio at ymateb i bobl ar y cyfryngau cymdeithasol: *Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).*
- 2.6 Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â safon 45.
- 2.7 Mae gan bob sefydliad eithriad o dan safon 45 sydd yn nodi'r canlynol:
Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Rhaid cydymffurfio â safon 45 yn yr amgylchiadau isod:
 - wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol.
- 2.8 Fe wiriwyd prif gyfrifon corfforaethol yr holl sefydliadau ar Instagram a LinkedIn, gan nad yw'r Comisiynydd wedi gwirio'r platfformau hyn o'r blaen. Yn ogystal, fe wiriwyd un is-gyfrif adrannol ar Facebook ac X, gan fod y prif gyfrifon corfforaethol ar y platfformau hynny eisoes wedi'u gwirio mewn arolygon blaenorol. Nod y broses oedd archwilio cyfrifon newydd a chasglu data gwahanol. Nid oedd gan bob sefydliad is-gyfrif perthnasol ar Facebook ac X, naill ai am nad ydynt yn bodoli, neu am nad oeddent yn ddigon amlwg i'w darganfod ac felly ddim yn cael eu hyrwyddo.
- 2.9 Fe wiriwyd 10 post ar gyfer pob cyfrif ar bob platfform lle'r oedd cyfrif perthnasol yn bodoli. Roedd gan bob un o'r 10 sefydliad gyfrifon corfforaethol ar Instagram a LinkedIn. Fe ddarganfuwyd is-gyfrif adrannol ar gyfer 7 sefydliad ar Facebook, ac ar gyfer 8 sefydliad ar X.
- 2.10 Fe wiriwyd cyfanswm o 350 o negeseuon, gan asesu:
 - A oedd y neges ar gael yn Gymraeg
 - A oedd y neges yn cydymffurfio â gofynion safonau sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol
 - A oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.11 Yn ogystal, gwiriwyd cydymffurfiaeth â safon 62 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol. Mae safon 62 yn nodi '*Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*'

3 Canfyddiadau

Cyfrifon Instagram corfforaethol

- 3.1 Roedd gan bob sefydliad cyfrif corfforaethol ar Instagram. Roedd hanner ohonynt yn gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, tra bod yr hanner arall yn defnyddio un cyfrif dwyieithog.
- 3.2 Fe wiriwyd 100 o negeseuon ar Instagram, sef 10 ar gyfer bob sefydliad.
- 3.3 Roedd 80% o'r sefydliadau'n cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol wrth ddefnyddio Instagram, yn benodol o ran cynnwys disgrifiad neu lun proffil ar gyfer y cyfrif. Gwelwyd ychydig o enghreifftiau lle'r oedd enw'r cyfrif yn Saesneg yn unig, er bod gweddill y cynnwys yn cydymffurfio.
- 3.4 Roedd cydymffurfiaeth yn uchel iawn ar y cyfan, gyda 82% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg ac yn gyfatebol i'r fersiwn Saesneg, ar draws y sector cyfan. Dim ond 3% o negeseuon oedd yn uniaith Saesneg.
- 3.5 Un patrwm amlwg oedd diffyg siaradwyr neu gyfranwyr Cymraeg mewn fideos. Er bod capsiynau a thestun y fideo yn Gymraeg, ac is-deitlau Cymraeg wedi'u cynnwys yn amlach na pheidio, byddai cynnwys mwy o gyfranwyr Cymraeg yn gam pellach tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.6 Rydym yn cydnabod y gall sicrhau siaradwyr Cymraeg ar bob achlysur fod yn heriol, ac mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen cyfleu neges yn uniongyrchol gan berson nad yw'n medru'r Gymraeg e.e arbenigwr neu Brif Weithredwr. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw achosion lle'r oedd y negeseuon a wiriwyd yn gofyn am y math hwn o ddarpariaeth, megis negeseuon o natur frys neu negeseuon lle mae'r siaradwr yn hanfodol i'r neges. Mae hyn yn tanlinellu'r pwysigrwydd o gynnwys siaradwyr Cymraeg lle bo hynny'n bosib, er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal i'r Gymraeg.
- 3.7 Ar gyfer rheini oedd gyda cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, roedd 80% o'r cyfrifon Saesneg yn cynnwys dolen i'r cyfrif Cymraeg.

Cyfrifon LinkedIn corfforaethol

- 3.8 Roedd gan bob sefydliad gyfrif corfforaethol ar LinkedIn.
- 3.9 Roedd gan saith sefydliad gyfrif dwyieithog, un sefydliad gyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac un sefydliad gyfrif Saesneg yn unig.
- 3.10 Fe wiriwyd 100 o negeseuon ar LinkedIn, sef 10 ar gyfer bob sefydliad.
- 3.11 Y prif her wrth ddefnyddio LinkedIn oedd cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol. Dim ond dau sefydliad oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn. Yn aml, roedd cyfrifon dwyieithog yn defnyddio enw a thudalen broffil uniaith Saesneg, er bod y negeseuon eu hunain yn ddwyieithog ac felly'n cydymffurfio.
- 3.12 Roedd 76% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg yn llawn ac yn gyfatebol i'r fersiwn Saesneg. Roedd 16% o'r negeseuon ar gael yn Saesneg yn unig.

Is gyfrifon adrannol Facebook

- 3.13 Fe ddarganfuwyd is-gyfrif adrannol Facebook ar gyfer 7 sefydliad. Er y gallai fod mwy o is-gyfrifon yn bodoli ar gyfer y sefydliadau eraill, nid oedd modd eu darganfod yn rhwydd. Byddai angen gwirio'n uniongyrchol gyda'r sefydliadau hynny i gadarnhau. Roedd natur y cyfrifon yn amrywio, ond fe wiriwyd nifer o gyfrifon gwasanaethau mamolaeth, gan awgrymu bod gan y mwyafrif o'r Byrddau lechyd gyfrifon adrannol o'r fath.
- 3.14 Fe wiriwyd cyfanswm o 70 o negeseuon ar Facebook, sef 10 ar gyfer bob sefydliad perthnasol.
- 3.15 Roedd amrywiaeth sylweddol o ran cydymffurfiaeth ar draws y sector. Roedd tri o'r cyfrifon yn uniaith Saesneg ac felly'n methu â chydymffurfio â gofynion y safonau cyfryngau cymdeithasol. Roedd tri yn gyfrifon dwyieithog, ac un yn gyfrif Cymraeg ar wahân.
- 3.16 Dim ond y cyfrif Cymraeg ar wahân oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion. Roedd y mwyafrif o'r cyfrifon dwyieithog yn defnyddio enw neu ddisgrifiad uniaith Saesneg, er bod y cynnwys a'r negeseuon yn ddwyieithog.
- 3.17 Roedd 55.7% o'r negeseuon ar gael yn gwbl Gymraeg, ac roedd 32.8% ddim ar gael yn Gymraeg o gwbl – sy'n adlewyrchu'r ffaith bod rhai o'r cyfrifon yn uniaith Saesneg. Roedd 32.9% o'r negeseuon yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn bennaf oherwydd bod y post yn uniaith Saesneg, neu bod y capsiwn yn ddwyieithog ond bod y llun/graffig ynghlwm yn uniaith Saesneg.
- 3.18 Un o'r heriau wrth wirio is-gyfrifon adrannol ar Facebook oedd pennu a oedd y cyfrif yn dod o dan reolaeth uniongyrchol y sefydliad perthnasol, neu a oedd yn cael ei redeg gan drydydd parti. Mae hyn yn amlygu'r angen i sefydliadau sicrhau bod eu darparwyr trydydd parti yn llwyr ymwybodol o ofynion y safonau, ac yn gweithredu'n unol â hwy. Dylai trefniadau cadarn fod ar waith i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth fel rhan o unrhyw gytundeb gyda darparwyr allanol.

Is gyfrifon adrannol X

- 3.19 Fe ddarganfuwyd is-gyfrif adrannol ar X ar gyfer 8 sefydliad. Er y gallai fod mwy o is-gyfrifon yn bodoli ar gyfer y sefydliadau eraill, nid oedd modd eu darganfod yn rhwydd. Byddai angen gwirio'n uniongyrchol gyda'r sefydliadau hynny i gadarnhau. Roedd natur y cyfrifon yn amrywio – gan gynnwys cyfrifon recriwtio, ceisio barn, ac adrannau ymchwil.
- 3.20 Fe wiriwyd cyfanswm o 80 o negeseuon X, sef 10 ar gyfer bob sefydliad perthnasol.
- 3.21 Roedd peth amrywiaeth o ran cydymffurfiaeth ar draws y sector. Roedd pump o'r cyfrifon yn rhai dwyieithog, un yn gyfrif Cymraeg ar wahân, ac 2 yn gyfrifon uniaith Saesneg.
- 3.22 Roedd tri o'r cyfrifon yn cydymffurfio'n llawn â gofynion hunaniaeth gorfforaethol. Nid oedd y gweddill yn cydymffurfio, yn bennaf oherwydd bod yr enw a'r disgrifiad ar y cyfrif yn uniaith Saesneg.
- 3.23 Roedd 62.5% o'r negeseuon ar gael yn gwbl Gymraeg, tra bod 32.5% ddim ar gael yn Gymraeg o gwbl. Roedd 38.8% o'r negeseuon yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn bennaf oherwydd eu bod yn uniaith Saesneg, neu oherwydd bod y graffeg neu'r llun ynghlwm yn cynnwys testun Saesneg yn unig.

4 Tueddiadau

Hunaniaeth gorfforaethol

- 4.1 Yn gyffredinol, roedd y sector yn cydymffurfio yn dda iawn ar Instagram a LinkedIn, gyda'r mwyafrif o'r negeseuon ar gyfrifon corfforaethol ar gael yn Gymraeg ac yn gyfatebol i'r fersiwn Saesneg. Y prif heriau ar y platfformau hyn oedd cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol – yn enwedig ar LinkedIn, lle'r oedd y rhan fwyaf o'r cyfrifon yn defnyddi enw a thudalen broffil uniaith Saesneg – a diffyg cyfranwyr Cymraeg mewn fideos. Ar y cyfan, capsiynau a lluniau oedd y prif gyfrwng ar gyfer negeseuon, gyda nifer isel iawn o fideos yn cael eu defnyddio.
- 4.2 Roedd canlyniadau'r gwaith gwirio yn amrywio ymysg yr is-gyfrifon a archwiliwyd ar Facebook ac X, gan adlewyrchu natur y cyfrifon yn hytrach na'r sefydliad sy'n gyfrifol amdanynt. Gwelwyd problemau cyffredinol o ran hunaniaeth gorfforaethol, gyda llawer o gyfrifon yn defnyddio enwau a disgrifiadau uniaith Saesneg, er bod y cynnwys ei hun mewn rhai achosion yn ddwyieithog.
- 4.3 Wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd bod 60% o'r cyfrifon a wiriwyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gwelwyd enghreifftiau lle'r oedd logo, enw ac / neu "handle" y cyfrif yn uniaith Saesneg, a'r wybodaeth yn y proffil yn uniaith Saesneg neu'n cynnwys llai o wybodaeth yn Gymraeg nac yn y fersiwn Saesneg. Er bod cyfyngiadau ar hyd testun mewn adrannau proffil ar rai platfformau, mae hyn yn tanlinellu'r angen i ystyried y Gymraeg wrth greu'r cyfrifon ac wrth lunio'r testun proffil, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael yn Gymraeg.

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 4.4 Dengys yr arolwg bod 80.6% o'r negeseuon yn cydymffurfio'n llawn neu'n rhannol â'r safon, tra bod 19.4% wedi methu â chydymffurfio. Roedd y methiant hwn yn deillio o amryw o ffactorau, ond y rheswm amlycaf oedd triniaeth llai ffafriol i'r Gymraeg – er enghraifft, pan oedd mwy o destun ar y fersiwn Saesneg, neu pan oedd y capsiwn yn ddwyieithog ond bod y llun neu'r graffeg ynghlwm yn uniaith Saesneg.
- 4.5 Mae Cod Ymarfer Rheoliadau Rhif 7 yn nodi nifer o ffactorau sy'n gallu arwain at driniaeth llai ffafriol, gan gynnwys:
 - golwg y deunydd (e.e. lliw, maint, ffont a fformat)
 - iaith y deunydd
 - trefn ieithyddol y deunydd
 - safon ac ansawdd y deunydd
 - lleoliad ac amlygrwydd y deunydd
 - pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi
 - eglurder a chywirdeb y deunydd
 - cynnwys y deunydd

Fideos a chlipiau sain

4.6 Nid oedd nifer fawr o fideos ar draws y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a archwiliwyd. Pan oedd fideos ar gael, yn aml roedd y siaradwyr neu gyfranwyr yn siarad Saesneg yn unig, gyda'r fideo yn cynnwys is-deitlau Cymraeg. Er hyn, yn y mwyafrif o achosion, roedd unrhyw destun yn y fideo ei hun – megis graffeg neu labeli – ar gael yn Gymraeg.

4.7 Mae Cod Ymarfer Rheoliadau Rhif 7 yn nodi'r canlynol:

'Gallai fod corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg os yw'r fersiwn Gymraeg o'r clip fideo yn:

- cynnwys person yn siarad yn Saesneg pan fyddai'r person hwnnw, neu berson arall, wedi gallu gwneud cyfraniad cyfatebol yn Gymraeg*
- defnyddio is-deitlau Cymraeg yn hytrach na throslais Cymraeg, neu*
- defnyddio troslais Saesneg yn hytrach na throslais Cymraeg.'*

5 Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Mae'r safon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Rheoliadau Rhif 7 yn cyfeirio'n benodol at y gofyn i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae gan bob sefydliad sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau hyn amgylchiad ychwanegol sy'n cyfyngu'r ddyletswydd i gyfrifon corfforaethol ac adrannol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o'r cyfrifon yn dod o fewn cwrmpas y safon ac felly'n ddarostyngedig i'r gofynion.
- 5.2 Mae'r sector yn perfformio'n dda iawn yn gyffredinol ar eu cyfrifon corfforaethol. Mae'r Comisiynydd wedi monitro'r prif cyfrifon ar Facebook ac X yn y gorffennol, gyda chanlyniadau cadarnhaol ar y cyfan. Wrth edrych ar blatfformau newydd eleni – megis Instagram a LinkedIn - mae'r patrwm cadarnhaol hwn yn parhau.
- 5.3 Fodd bynnag, mae lefelau cydymffurfio'n amrywio ymysg yr is-gyfrifon adrannol. Tybir bod amryw resymau dros hyn, gan gynnwys y ffaith bod timau penodol yn gyfrifol am y cyfrifon hyn yn hytrach na'r tîm cyfathrebu canolog, sy'n gallu gwneud monitro a sicrhau cysondeb yn fwy heriol. Un o'r prif feysydd gwannaf ar yr is-gyfrifon yw cydymffurfiaeth â gofynion hunaniaeth gorfforaethol, yn enwedig o ran enwau a disgrifiadau cyfrifon.
- 5.4 Gan fod safon 33, sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd a hysbysebu, hefyd yn berthnasol i weithgaredd ar gyfryngau cymdeithasol, mae'n bwysig bod unrhyw fideos neu bosteri'n cydymffurfio â'r gofynion – hynny yw, eu bod yn ddwyieithog ac nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol. Mae ein cod ymarfer yn cynnig cyngor pellach ar sut i gydymffurfio yn y maes hwn, ac rydym ar hyn o bryd yn datblygu adnoddau ychwanegol symlach ac yn fwy hygyrch i gynorthwyo sefydliadau i gydymffurfio yn benodol yn y maes hwn.
- 5.5 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 7:

Argymhelliad 1: Hunaniaeth Gorfforaethol

Dylai sefydliadau gymryd camau i hyrwyddo hunaniaeth Gymraeg ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Dylid sicrhau bod yr un lefel o wybodaeth ar gael yn y fersiynau Cymraeg o fanylion y sefydliad – megis enw, disgrifiad, math o sefydliad, a manylion cyswllt.

Argymhelliad 2: Fideos

Dylai sefydliadau ystyried cynnwys mwy o siaradwyr Cymraeg mewn fideos. Er nad yw hyn bob amser yn bosibl nac yn briodol – yn enwedig pan fo'r cynnwys yn arbenigol - byddai fideos mwy cyffredinol, er enghraifft rhai sy'n cynnwys profiadau cleifion neu wybodaeth gyhoeddus, yn elwa o gyfranwyr Cymraeg. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r angen am droslais neu is-deitlau.

Argymhelliad 3: Cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon

Dylai sefydliadau wirio cyn cyhoeddi negeseuon bod y Gymraeg yn ymddangos gyntaf, a bod y testun Cymraeg yn gywir o ran ystyr a mynegiant ac yn cyfleu'r un neges â'r testun Saesneg.

Argymhelliad 4: Trefniadau goruchwyllo

Dylai sefydliadau gryfhau eu prosesau hunanreoleiddio drwy sicrhau bod bob cyfrif cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys unrhyw is-gyfrifon, yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol. Mae hyn yn golygu darparu arweiniad clir i staff sy'n postio, monitro cynnwys yn rheolaidd, a sicrhau cysondeb ieithyddol a safon uchel o gyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Atodiadau

Atodiad 1

Data'r arolwg

	Is-gyfrif adrannol Facebook	Is-gyfrif adrannol X	Instagram corfforaethol	LinkedIn corfforaethol	Cyfanswm a chanrannau
Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform	7	8	10	10	35
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Cymraeg ar wahân	1/7 (14.3%)	1/8 (12.5%)	5/10 (50%)	2/10 (20%)	9/35 (25.7%)
Nifer a % y sefydliadau a chyfrif dwyieithog	3/7 (42.8%)	5/8 (62.5%)	5/10 (50%)	7/10 (70%)	25/35 (71.4%)
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Saesneg yn unig	3/7 (42.8%)	2/8 (25%)	0/10 (0%)	1/10 (10%)	6/35 (17.1%)
Nifer a % y sefydliadau oedd yn cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol	1/7 (14.3%)	3/8 (37.5%)	8/10 (80%)	2/10 (20%)	14/35 (40%)
Nifer y negeseuon y gwriwyd	70	80	100	100	350
Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn gwbl Gymraeg	39/70 (55.7%)	50/80 (62.5%)	82/100 (82%)	76/100 (76%)	271/350 (77.4%)
Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn rhannol Gymraeg	8/70 (11.4%)	4/80 (5%)	15/100 (15%)	8/100 (8%)	35/350 (10%)

Nifer a % y negeseuon oedd ddim ar gael yn Gymraeg o gwbl	23/70 (32.8%)	26/80 (32.5%)	3/100 (3%)	16/100 (16%)	68/350 (19.4%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn llawn	39/70 (55.7%)	50/80 (62.5%)	81/100 (81%)	75/100 (75%)	245/350 (70%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn rhannol	8/70 (11.4%)	4/80 (5%)	16/100 (16%)	9/100 (9%)	37/350 (10.6%)
Nifer y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (<i>yn cynnwys yn llawn neu yn rhannol</i>)	23/70 (32.9%)	31/80 (38.8%)	18/100 (18%)	26/100 (26%)	98/350 (28%)

Atodiad 2

Sefydliadau'r sampl

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre